# Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

**2009 mccc 4**

*Swyddogaethau'r Comisiynydd*

## 6 Swyddogaethau'r Comisiynydd

(1) Swyddogaethau'r Comisiynydd yw —

(a) derbyn unrhyw gŵyn bod ymddygiad Aelod Cynulliad, ar adeg berthnasol, wedi methu â chydymffurfio ag un o ofynion darpariaeth berthnasol,

(b) ymchwilio i unrhyw gŵyn o'r fath yn unol â darpariaethau'r Mesur hwn,

(c) cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ganlyniad unrhyw ymchwiliad o'r fath,

(d) cynghori Aelodau Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd am y gweithdrefnau ynglŷn â gwneud cwynion ac ymchwilio i gwynion y mae paragraff (a) yn gymwys iddynt, a

(e) y swyddogaethau eraill a roddir gan adran 7.

(2) Ystyr "adeg berthnasol" yw adeg pan oedd y gofyniad o dan sylw mewn grym ond nid yw'n berthnasol a honnir bod yr ymddygiad o dan sylw wedi digwydd cyn i'r adran hon ddod i rym neu ar ôl hynny.

(3) Ystyr "darpariaeth berthnasol" yw —

(a) unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â'r canlynol—

(i) cofrestru neu ddatgan buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill,

(ii) hysbysiadau gan Aelodau Cynulliad ynglŷn â'u haelodaeth o gymdeithasau,

(iii) cofrestru neu hysbysu unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud ag Aelodau Cynulliad neu â phersonau sy'n gysylltiedig ag Aelodau Cynulliad.

(b) unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad sy'n ymwneud â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill Aelodau Cynulliad,

(c) unrhyw God Ymddygiad a gymeradwyir gan y Cynulliad sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau Cynulliad,

(d) unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad sy'n ymwneud â safonau ymddygiad Aelodau Cynulliad, ac

(e) unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y Rheolau Sefydlog (neu mewn unrhyw god neu brotocol a wneir odanynt) yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf.

(4) Nid yw'n berthnasol a ddaeth darpariaeth berthnasol i rym cyn i'r adran hon ddod i rym neu ar ôl hynny.

## 7 Swyddogaethau eraill y Comisiynydd

Fe gaiff y Comisiynydd (ac os gofynnir iddo wneud hynny gan y Cynulliad mae'n rhaid iddo) roi cyngor i'r Cynulliad —

(a) ar unrhyw fater arall o egwyddor gyffredinol sy'n ymwneud â darpariaethau perthnasol neu â safonau ymddygiad Aelodau Cynulliad yn gyffredinol,

(b) ar weithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion bod Aelodau Cynulliad wedi methu â chydymffurfio â gofynion darpariaethau perthnasol,

(c) ar unrhyw fater sy'n ymwneud â hybu, annog a diogelu safonau ymddygiad uchel yn swydd gyhoeddus Aelod Cynulliad.

## 8 Cod ar gyfer Gweinidogion

(1) Nid oes dim yn y Mesur hwn sy'n awdurdodi'r Comisiynydd i fynegi barn ar—

(a) unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â safonau ymddygiad a gynhwysir mewn Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion,

(b) unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â safonau ymddygiad a allai gael ei chynnwys mewn Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion,

(c) unrhyw honiad bod ymddygiad unrhyw berson yn groes i ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r safonau ymddygiad a gynhwysir mewn Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion, neu

(d) effeithiolrwydd unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir mewn Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion, mewn perthynas ag unrhyw ymddygiad penodol neu yn gyffredinol.

(2) At ddibenion yr adran hon—

(a) ystyr "Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion" yw unrhyw ddogfen (pa fodd bynnag y disgrifir y ddogfen honno) sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â safonau ymddygiad—

(i) sydd wedi'i chyhoeddi drwy awdurdod y Prif Weinidog neu o dan ei awdurdod,

(ii) sy'n gymwys i'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, neu i unrhyw un ohonynt,

(iii) sy'n ymwneud â safonau ymddygiad yn y swyddi hynny, a

(iv) sy'n ceisio cymhwyso safonau ymddygiad sy'n wahanol i'r rheini sy'n gymwys i Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol, neu sy'n ychwanegol atynt, a

(b) mae darpariaeth sy'n ymwneud â safonau ymddygiad yn un a allai gael ei chynnwys mewn Cod Cymreig ar gyfer Gweinidogion os yw'r ddarpariaeth honno'n bodloni gofynion paragraff (a)(ii), (iii) a (iv).